

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Rhagfyr 4ydd 2018 yn Neuadd Bro Derfel. Yn bresennol oedd Gwynedd Jones (Cadeirydd), Eilir Rowlands, Alwyn Jones, Gary Thomas, Maldwyn Jones, Dewi Pritchard, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Morris, Rita Jones, Gethin Morris, Meilir Jones, Eifion Davies, Iolo Evans a Gwenda Evans.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Tachwedd a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Mynwentydd.

i) Archwilio'r mynwentydd - adroddodd y clerc bod y cerrig beddau wedi cael eu hail archwilio ym mis Tachwedd. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i aros tan ar ôl y Nadolig cyn cymryd unrhyw gamau pellach er mwyn rhoi cyfle i'r teuluoedd estynedig gysylltu â'r Cyngor neu i gyflawni'r gwaith. Derbyniwyd amcan bris am docio gwrych mynwent Llandderfel a chytunwyd i roi'r gwaith i Deiniol Davies, Rhydefaid. Cytunwyd i ofyn iddo dorri'r gwrych yn flynyddol o hyn ymlaen ac i'r clerc ofyn i Gwmni Ciltalgarth docio'r gwrychoedd yn y mynwentydd eraill fel rhan o'i waith tymhorol. Derbyniwyd amcan bris hefyd am drwsio giât mynwent Llandderfel a chytunwyd i gysylltu'n ôl i ychwanegu trwsio a phaentio'r rheiliau blaen i'r gwaith. Cytunwyd fod angen cael dau bris arall ar gyfer y gwaith.

b) Diogelu Data.

Adroddodd y clerc fod y Cyngor nawr wedi ei gofrestru gyda'r ICO a chytunwyd i arwyddo'r ffurflen debyd uniongyrchol i dalu'r tal aelodaeth yn flynyddol (£35). Roedd y wefan wedi cael ei diweddarau gyda'r hysbysiad priodol yn cynghori'r defnyddwyr fod y wefan yn defnyddio 'cookies'.

c) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

i) Cais am loches bws i Lanfor - gan nad oedd yr Asiantaeth Cefnffyrdd wedi ymateb i'r ohebiaeth a anfonwyd ymlaen iddynt gan Gyngor Gwynedd roedd y clerc wedi cysylltu gyda hwy yn uniongyrchol ac yn aros am adborth.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

i) Triathalon Y Bala - cafwyd adroddiad o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod ym mis Tachwedd. Cytunwyd os oedd trefniadau priodol mewn lle i hysbysu'r cyhoedd o'r digwyddiad ac i reoli traffig yn ystod y digwyddiad nid oedd y Cyngor yn gwrthwynebu'r bwriad o gynnal y digwyddiad eto eleni. Cytunodd Gwynedd Jones ac Eilir Rowlands i fynychu'r cyfarfod ar y 19/12/18 i drafod y mater ymhellach.

ii) Awdit eich Cyngor - cais gan aelodau'r Cynulliad i gwblhau holiadur i gael barn y Cyngor am y drefn archwilio sydd wedi cael ei orfodi ar Gynghorau lleol dros y ddwy flynedd diwethaf.

iii) Gwella Busnes a Moderneiddio – Gwahoddiad i weithdy i drafod 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' ar y 11/1/19.

iv) Comisiwn Ffiniau – Arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd – chopi o'r 'Adroddiad Argymhellion Terfynol'.

v) Llywodraeth Cymru – Llythyr yn ein hysbysu o'r 'Swm Priodol o dan Adran 137o ddeddf Llywodraethol Leol 1972'.

vi) Swyddfa Archwilio Cymru – Copi o'i adroddiad 'Darparu Gwasanaethau Llywodraeth Lleol i Gymunedau Gwledig: Trosglwyddo Asedau Cymunedol'.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gefnogi cais Derwgoed ac anfon manylion cais Capel Glanrafon i'r cynghorwyr lleol cael rhoi eu barn:-

C18/108/04/YA – Adeiladu sied amaethyddol. Derwgoed, Llandderfel.

C18/1012/04/LL - Trosi cyn gapel yn dy gwesty a gwasanaeth gydag uned breswyl i'r perchnogion. Capel Methodistiaid, Glanrafon.

vi) Materion Ariannol.

a) Adolygu cyflog y clerc.

Adolygwyd cyflog y clerc a chytunwyd i'w gadw run fath yn 2019/20 ond i'r clerc i'w hysbysebu os oedd angen tal am unrhyw oriau ychwanegol a weithiwyd.

b) Cyllideb a Praesept 2019/20.

Cafwyd braslun o'r gyllideb gan y clerc. Cytunodd y cynghorwyr yn unfrydol na fyddant yn hawlio unrhyw daliadau anorfodol ac y byddant yn dewis optio allan o hyn pan fyddai'r Panel Annibynnol Cymru yn cyhoeddi eu hadroddiad terfynol. Ychwanegwyd arian ar gyfer y taliadau gorfodol i aelodau'r Cyngor (hawlio ad-daliad costau gofal). Cynyddwyd y swm a glustnodwyd ar gyfer cyflog a chostau'r clerc (gweler pwynt vi) a) uchod). Gan fod costau archwilio'r cyfrifon yn cynyddu'n flynyddol cytunwyd i gynyddu'r gyllideb i £500 ac i gynyddu'r tal am ddefnyddio'r neuaddau ar gyfer cyfarfodydd i £20 y tro. Gan fod costau torri glaswellt ayyb yn y mynwentydd wedi codi ers llynedd cytunwyd i godi'r gyllideb i £3,000. Cytunwyd i glustnodi £7,800 ar gyfer prosiectau dros y 3 mlynedd nesa, £1,800 ar gyfer y mynwentydd (trwsio giât a rheiliau mynedfa mynwent Llandderfel) a £6,000 tuag adnoddau newydd i'r cymunedau. Trafodwyd y swm o arian a gadwir wrth gefn a chytunwyd bod y swm yn ddigonol. Cytunwyd ar y gyllideb derfynol a phasiwyd i osod y Praesept o £9,000 ar gyfer 2019-20.

c) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Cyflog a Chostau'r Clerc (Hyd-Rhag), TWE, BDO (archwiliad allanol), Cyngor Gwynedd (bin gwastraff gwyrdd mynwent Llandderfel).

ch) Ceisiadau ariannol

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Eisteddfod Llandderfel a Dawns i Bawb. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

vii) Materion lleol.

a) Cytunwyd i basio'r cwynion canlynol ymlaen i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd:-

i) A494 Cefnddwysarn - cais am arwydd ar y gyffordd yn cyfeirio pobl tuag at Gwm Main.

ii) Cyffordd Cletwr o'r Pale i'r B4391 (ffordd Bala i Langynog) - bocs mawr gwyrdd wedi cael ei osod ar bolyn ar y gyffordd ac yn amharu ar welededd gyrrwyr.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos
Fawrth, Chwefror 5ed yn Neuadd
Mynach am 7.30 y.h.**